



Cwestiwn enghreifftiol SQE2 a thrafodaeth ar yr ateb

Cyfweld cleient a nodyn presenoldeb/dadansoddiad
cyfreithiol (Ewyllysiau a diffyg ewyllys, Gweinyddu
Profiant ac Ymarfer)

Adolygwyd ddiwethaf ar 2 Chwefror 2023

Bydd ymgeiswyr yn cyflawni 16 asesiad yn SQE2. Er mwyn pasio SQE2, bydd rhaid i ymgeiswyr gael y marc pasio cyffredinol ar gyfer SQE2.

Mae'r cwestiwn enghreifftiol hwn a'r drafodaeth ar yr ateb yn enghraifft o asesiad sy'n cynnwys cyfweld cleient a nodyn presenoldeb/dadansoddiad cyfreithiol

Mae gan ymgeiswyr 10 munud i ystyried yr e-bost ac unrhyw ddogfennau. Bydd ganddynt wedyn 25 munud i gynnal y cyfweiliad gyda'r cleient. Mae gan ymgeiswyr 25 munud i ysgrifennu, â llaw, nodyn presenoldeb/dadansoddiad cyfreithiol o'r cyfweiliad y maent newydd ei gwblhau.

I gael rhagor o fanylion, gweler y Fanyleb Asesu ar gyfer SQE2.

Noder fod y cwestiynau enghreifftiol yn cael eu darparu i roi syniad o'r math o dasgau y gellid eu gosod i ymgeiswyr. Nid ydynt yn cynrychioli'r holl ddeunydd a gynhwysir yn SQE2. Efallai na fydd cwestiynau yn y dyfodol yn dilyn yr un fformat yn union.

Cwestiwn a phapurau ychwanegol i ymgeiswyr

E-bost at yr Ymgeisydd

Oddi wrth: Partner
Anfonwyd: 5 Mai 202#
At: Ymgeisydd
Pwnc: Damian Robins

Mae Damian Robins yn gleient newydd. Mae wedi gwneud apwyntiad i dy weld heddiw yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Astrid Green. Mae wedi anfon copi oewylllys ei chwaer (gweler ynghlwm).

Fe weli di o'r ewylllys mai Damian yw un o'r Ysgutorion. Mae'n bwriadu gweinyddu'r ystâd heb ein help ni ond mae'n ein cyfarwyddo i roi cyngor cychwynnol iddo am y canlynol:

- pwy ddylai weithredu fel ysgutorysgutorion;
- sut y dylid dosbarthu'r ystad. Rwy'n deall nad oedd rhai o'r asedau a grybwyllir yn yr ewylllys yn eiddo i'r ymadawedig pan fu farw; ac
- a fydd unrhyw dreth etifedd yn daladwy ac, os felly, faint.

Mae sefyllfa teulu Astrid ychydig yn gymhleth, felly mae Damian wedi bod mor garedig â rhoi crynodeb byr i ni o deulu Astrid, ac rwyf hefyd wedi'i atodi i'r e-bost hwn. Dylai hyn fod yn ddefnyddiol wrth ystyried telerau ewylllys Astrid.

Byddaf yn cyfeirio at dy nodyn presenoldeb/dadansoddiad cyfreithiol i ysgrifennu llythyr cyngori at Damian, felly gwna'n siŵr ei fod yn cynnwys y cyngor y dylem ei roi iddo am y materion hyn hyd yn oed os wyt ti wedi rhoi sylw i hyn yn y cyfweiliad. Dylai dy nodyn presenoldeb hefyd ymdrin â'r holl faterion arferol: y ffeithiau, y dadansoddiad cyfreithiol cychwynnol, cyngor i'r cleient, y camau nesaf, ac wrth gwrs unrhyw faterion ymddygiad proffesiynol sy'n codi. Yn amlwg, os bydd Damian yn codi unrhyw faterion eraill gyda ti, gwsîwr bod y nodyn presenoldeb hefyd yn eu cynnwys ac yn cynnwys eich cyngor arnynt, hyd yn oed os ydych chi eisoes wedi trafod hyn yn y cyfweiliad.

Diolch

Partner

Atodiadau:
Ewyllys Astrid Green
Manylion teulu Astrid Green

Nodyn i Ymgeiswyr:

I ddibenion yr ymarfer hwn, ni ddylech, ac ni ofynnir ichi, ddelio â materion sy'n ymwneud â gofalu am gleientiaid, gan gynnwys costau, na materion sy'n ymwneud ag atal gwyngalchu arian.

Yr ydwyf i ASTRID GREEN o 99 Castle Street Grays Essex RM16 7YY yn datgan main hon yw fy Ewyllys olaf a wneir gennyf ar y 12fed dydd hwn o Fehefin 2004

1. Yr ydwyf i'n dirymu holl waredion ewyllysiadol cynharach.
2. YR WYF YN PENODI fy ngŵr COLIN GREEN fy mrawd DAMIAN ROBINS a'm chwaer JOAN KNIGHT fel fy Ysgutorion ac Ymddiriedolwyr ("fyYmddiriedolwyr")
3. RWY'N GWNEUD y rhoddion canlynol ym mhob achos yn ddi-dreth:
 - a) I fy mab FRANK GREEN, cloc teithio fy nhaid a roddwyd i fy nhaid ar ei ymddeoliad o ABC plc
 - b) I bob un o'm wyresau GAYNOR GREEN a SUSAN GREEN, swm o £500
 - c) I'm nai JOHN ROBINS 500 o gyfranddaliadau yn ABC plc
4. RHODDAF weddill fy ystâd (ar ôl talu fy nyledion, costau'r angladd a threuliau ewyllysiol a'r rhoddion a grybwyllir uchod) i'm Hymddiriedolwyr i'w dal mewn ymddiriedolaeth ar gyfer y rhai hynny o blant fy chwaer JOAN KNIGHT, a fydd yn fy ngoroesi ac yn cyrraedd 21 oed ac os bydd mwy nag un mewn cyfrannau cyfartal yn ddiamod

LLOFNODWYD gan y ragddywededig ASTRID GREEN
ym mhresenoldeb y ddau ohonom ar y cyd ac yna gennym ni yn ei phresenoldeb

Astrid Green

George Jones

George Jones
18 Cooper Street
Hackney
Llundain
E9 7TR

Triniwr GwGwgwallt

Sheila Jones

Sheila Jones
18 Cooper Street
Hackney
Llundain E9 7TR

Glanhawr

Nodyn i Ymgeiswyr:

Dyma lungopi o'r ewyllys wreiddiol. Gallwch dybio bod yr ewyllys wreiddiol wedi'i gweithredu'n gywir yn unol â darpariaethau Deddf Ewyllysiau 1837 a bod gan y ewyllysiwr allu ewyllysiol llawn.

Crynodeb o fanylion teulu'r ddiweddar Astrid Green

Astrid Green:

Yr ymadawedig – bu farw ar 1 Ebrill 202#; priododd Colin Green – cafodd ysgaru yn 2011

Mab Astrid (ei hunig blentyn):

Frank Green (40 oed); yn briod â Helen; dau o blant – Gaynor Green (19 oed) a Susan Green (16 oed)

Brodyr a Chwiorydd:

Brawd: Damian Robins (60 oed); yn briod ag Elena Robins; un plentyn – John Robins (38 oed)

Chwaer: Joan Knight (70 oed); Gefeilles Astrid; gweddw; dau blentyn - Fiona a Jack (efeilliaid - 36 oed). Bu farw Jack yr wythnos diwethaf, gan adael gweddw, Maureen, ond dim plant.

Perthnasau eraill:

Dim: Bu farw rhieni Astrid flynyddoedd lawer yn ôl.

Gwybodaeth am y cleient (wedi'i rhoi i'r cleient nid i'r ymgeisydd)

Gwybodaeth am y Cleient (Damian Robins)

Eich enw: Damian Robins

Eich cyfeiriad: 46 Cunningham Crescent, Llundain, SE23 0AD

Ffôn: 07715 766654

Dyddiad geni: 16/02/1960

Oed: 60

E- bost: d.robins@gmail.com

Amdanoch chi

Rydych chi'n briod ag Elena ac mae gennych chi un plentyn, John. Rydych chi ac Elena yn weision sifil sydd wedi ymddeol. Rydych chi'n un o dri o blant (gweler isoisod).

Rydych chi'n ddyn deallus, hyderus a huawdl. Rydych yn effeithlon ac yn dda gyda gwaith papur a thechnoleg. Gan eich bod wedi ymddeol erbyn hyn, mae gennych gryn dipyn o amser rhydd. Rydych chi'n un o'r ysgutorion a benodwyd yn ewyllys eich chwaer ac rydych chi'n siŵr, ar ôl cael rhywfaint o arweiniad cychwynnol gan y cyfreithiwr, y byddech yn ddigon abl i ddelio â'i hystâd heb unrhyw gymorth proffesiynol pellach.

Nid oedd y cyfreithwyr a ddeliodd ag ystâd eich diweddar dad wedi gwneud argraff dda arnoch, gan eu bod yn araf ac yn ddrud. Mae eich profiad gyda nhw wedi dylanwadu rhywfaint ar eich barn am y proffesiwn cyfreithiol.

Roeddech chi'n agos at eich chwaer ac at aelodau eraill eich teulu sydd wedi marw'n ddiweddar, ond rydych chi'n tueddu i beidio â gadael i'ch emosiynau ddangos a byddwch chi'n gallu trafod eich teulu diweddar heb gynhyrfu'n amlwg.

Astrid Green

Bu farw eich chwaer, Astrid Green, dros fis yn ôl o diwmor ar yr ymennydd nad oedd modd ei drin. Yr oeddech yn gwybod ei bod yn sâl ac felly nid oedd yn syndod ond yr ydych yn drist serch hynny. Nid yw gwybod bob amser yn ei gwneud yn haws. Roedd hi'n chwaer fawr ardderchog ac yn ffrind i chi. Rydych chi'n teimlo eich bod wedi colli eich "gwarchodwr a'ch ffrind gorau" ac rydych chi'n awyddus i weinyddu ei hystâd yn iawn a gweld bod ei dymuniadau'n cael eu gwireddu.

Dyma fanylion personol Astrid:

Enw llawn	Astrid Green
Cyfeiriad diwethaf	99 Castle Street, Grays, Essex, RM16 7YF
Dyddiad geni	19/01/1950
Dyddiad marwolaeth	1 Ebrill 202#
Statws priodasol	Wedi ysgygaru
Galwedigaeth	Athro ysgol wedi ymddeol

Mae ewyllys a sefyllfa deuluol Astrid ychydig yn gymhleth a dyna pam eich bod wedi dod i weld cyfreithiwr. Rydych eisoes wedi rhoi copi i'r cyfreithiwr o'r ewyllys a wnaed gan Astrid yn 2004 a chrynodeb byr o'i manylion hi a'ch teulu.

Rhagor o fanylion am ewyllys Astrid

Yr ysgutorion eraill:

Yn ogystal â chi, mae dau arall yn cael eu crybwyll fel ysgutorion yn yr ewyllys.

Colin Green – Colin yw cyn â'r Astrid. Cafodd Colin ac Astrid ysgariad yn 2011. Nid yw Colin wedi ailbriodi. Mae ganddo bensiwn da ac mae'n eithaf cyfoethog, ar ôl etifeddu swm mawr o arian o'i fodryb ddwy flynedd yn ôl. Nid ydych wedi trafod yr ewyllys gydag ef, ond rydych yn credu bod ei fab, Frank, yn debygol o fod wedi rhoi gwybod iddo am ei chynnwys gan i chi roi copi o'r ewyllys i Frank.

Rydych chi'n siŵr bod yr ysgariad wedi'i gwblhau a bod setliad glân wedi'i wneud, h.y. does dim taliadau pellach i'w gwneud.

Joan Knight – Joan yw gefeilles Astrid, mae'n wraig weddw ac, wrth gwrs, yn chwaer i chi hefyd. Roedd ganddi ganser rai blynnyddoedd yn ôl. Mae wedi ymateb yn dda i'w thriniaeth ac mae'r prognosis yn dda. Fodd bynnag, mae'n dal yn eithaf gwan a byddai'n well ganddi beidio â gweithredu fel ysgutor. Hefyd, mae'n dal yn galaru yn dilyn marwolaeth ei mab Jack (gweler isod) ac mae ganddi ddigon i boeni amdano heb y baich ychwanegol o weithredu fel ysgutor ei chwaer. Nid yw Joan wedi gwneud dim ynglŷngyswllt gweinyddu ystâd Astrid.

Y bobl eraill y soniwyd amdanynt yn ewyllys Astrid:

Frank Green

Frank Green (40 oed) yw mab Astrid. Mae Frank yn briod â Helen ac mae ganddynt ddwy ferch: Gaynor Green a Susan Green – gweler isod.

Gaynor Green a Susan Green (wyresau Astrid)

Gaynor (19 oed) a Susan (16 oed) yw unig blant Frank Green (gweler uchod).

John Robins

John Robins (38 oed) yw eich unig blentyn a nai Astrid. Mae John yn sengl ac nid oes ganddo blant.

Plant Joan Knight

Roedd gan Joan efeilliaid. (Maen nhw'n rhedeg yn y teulu.) Mae Fiona yn 36 oed, yn sengl ac nid oes ganddi blant. Bu farw ei gefell, Jack, o drawiad ar y galon ddydd Llun yr wythnos diwethaf, ychydig wythnosau'n unig ar ôl i Astrid farw, sydd wedi bod yn ergyd ddwbl i'r teulu. Roedd Jack yn briod â Maureen ac nid oedd ganddo blant. Nid ydych yn gwybod a wnaeth Jack ewyllys.

Eitemau a grybwyllir yn ewyllys Astrid:

Y cloc teithio

Torrodd lladron i mewn i dŷ Astrid rai blynnyddoedd yn ôl. Un o'r eitemau a gymerwyd gan y lladron oedd y cloc teithio a etifeddodd gan ei thaid. Er bod y cloc o werth personol mawr iddi hi a'r teulu, dim ond tua £50 oedd gwerth y cloc.

Cyfranddaliadau yn ABC plc

Roeddech chi ac Astrid wedi etifeddu 500 o gyfranddaliadau yn ABC plc ar farwolaeth eich taid. Gwerthodd Astrid ei chyfranddaliadau ddwy flynedd yn ôl. Dydych chi ddim yn gwybod faint gafodd hi amdanynt, ond mae gennych chi gyfranddaliadau sy'n werth tua £1,000 ar hyn o bryd.

Eiddo a chyllid Astrid

Asedau:

Tŷ – Roedd Astrid yn berchen 99 Castle Street, sy'n dŷ teras bach gyda 2 ystafell wely, ac roedd hi'n byw ynddo. Mae'n rhydd o forgais ac mae'n werth oddeutu £250,000.

Nid oedd yn berchen ar unrhyw dŷ arall.

Car – doedd hi ddim yn berchen ar gar.

Eiddo personol arall – Nid oedd Astrid yn berchen ar unrhyw beth o unrhyw werth penodol. Rydych yn amcangyfrif bod ei holl eiddo personol werth oddeutu £2,000.

Cyfrifon banc a buddsoddiadau – Roedd gan Astrid gyfrif cyfredol gyda NatWest. Rydych yn credu bod balans cyfredol o tua £3,000. Roedd ganddi gyfrifon cynilo gyda HSBC a Santander hefyd. Unwaith eto, nid ydych yn siŵr o'r balansau, ond credwch fod tua £10,000 yn HSBC ac efallai tua £5,000 gyda Santander. Gallwch gael y balansau, os oes angen.

Polisiâu yswiriant – Roedd gan Astrid bolisi bywyd gyda LifeCo Ltd ac mae gennych chi'r ddogfen bolisi gartref. Rydych wedi anfon tystysgrif marwolaeth at LifeCo Ltd ac rydych wedi derbyn llythyr yn cadarnhau bod y swm o £10,000 yn ddyledus i'r ystâd dan y polisi ac y caiff ei dalu i'r cynrychiolwyr personol. Gallwch anfon copi o'r llythyr at y cyfreithiwr, os oes angen.

Pensiwn – Roedd Astrid yn derbyn pensiwn y wladwriaeth a phensiwn galwedigaethol a oedd yn dod i gyfanswm o oddeutu £2,500 y mis. Ni wyddoch a fu unrhyw ordaliad (neu dandaliad) o'r pensiynau hyn nac a yw cyfandaliad yn ddyledus o ganlyniad i farwolaeth Astrid o dan y pensiwn galwedigaethol. Os oes angen, gallwch wneud ymholiadau gan y darparwr pensiwn galwedigaethol.

Dyledion:

Defnyddiai Astrid gerdyn credyd Marks and Spencer er hwylustod, ond roedd bob amser yn talu'r balans llawn a oedd yn ddyledus bob mis. Nid ydych yn ymwybodol o unrhyw ddyledion eraill ac rydych yn hyderus ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw ddyledion heblaw am y bil cerdyn credyd terfynol.

Dydych chi ddim yn siŵr faint fydd hyn – efallai ychydig o gannoedd o bunnoedd.

Costau angladd – roedd y rhain, ynghyd â'r te at ôl yr angladd, yn costio £5,100 ac fe'u talwyd gennych o'ch arian eich hun. Mae'r derbynebaw gennych gartref. Rydych hefyd wedi cofrestru'r farwolaeth ac wedi talu am dair tystysgrif marwolaeth o'ch arian eich hun. Nid ydych yn cofio union gost y tystysgrifau marwolaeth ond mae'r dderbynneg gennych gartref.

Rhoddion:

Ni wnaeth Astrid unrhyw roddion yn ystod ei hoes.

Arall

Nid oedd gan Astrid unrhyw fuddiannau o dan ymddiriedolaeth.

Teulu a dibynyddion

Nid oes unrhyw aelodau eraill o'r teulu ac nid oedd gan Astrid unrhyw ddibynyddion. Nid ydych yn credu bod neb yn debygol o wrthwynebu telerau'r ewyllys.

Rhagor o wybodaeth

- Rydych chi'n credu mai dyma'r unig ewyllys a wnaed erioed gan Astrid.
- Daethoch o hyd i'r ewyllys wreiddiol yn nhŷ Astrid (mewn ffeil o bapurau personol yr oedd Astrid wedi'u paratoi gan ragweld y diwrnod trist pan fyddai'n marw) ac erbyn hyn mae wedi'i chloi'n ddiogel mewn cwpwrdd yn eich tŷ.
- Roedd eich chwaer yn gwbl gymwys yn feddyliol pan wnaeth yr ewyllys – ac yn wir hyd at ei marwolaeth.
- Eich barn am yr ewyllys os gofynnir i chi:
 - Nid oeddech yn synnu'n arbennig o weld nad oedd Astrid wedi gwneud fawr ddim darpariaeth i'w mab, Frank, yn ei hewyllys. Roedd Astrid yn gwybod ei bod yn debygol y byddai Colin yn etifeddu swm sylweddol o'i fodryb a'i bod yn debygol y byddai'n pasio'r swm ymlaen i'w mab, Frank. Rydych wedi rhoi copi o ewyllys Astrid i Frank ac mae wedi dweud wrthyh nad yw'n gwrthwynebu ei telerau. Mae gan Colin ddigonedd o asedau ei hun i fyw arnynt.
 - Roedd Astrid wastad wedi bod yn agos iawn at ei gefeilles, Joan. Roedd diweddar ŵr Joan wedi gwastraffu arian ac roedd hynny wedi peri gofid mawr i Astrid. Rydych yn meddwl bod Astrid, drwy wneud darpariaeth ar gyfer plant Joan yn ei hewyllys, yn ceisio eu digolledu am wariant annoeth eu tad. Does gennych chi ddim problem gyda hyn ac rydych chi'n fodlon â telerau'r ewyllys.

Crynodeb o'r cyngor yr ydych yn ei geisio

1. Ysgutorion

Fe hoffech wybod pwy ddylai weithredu fel ysgutorion. Byddai'n well gan Joan beidio â gweithredu ac mae Colin wedi ysgaru oddi wrth Astrid. Fe hoffech chi wybod a allech chi weithredu ar eich pen eich hun.

2. Rhannu'r ystâd

Rydych am i'r cyfreithiwr roi gwybod i chi sut y bydd yr ystâd yn cael ei rhannu gan gofio bod Jack wedi marw a'r ffaith nad oedd rhai o'r asedau a grybwyllir yn yr ewyllys bellach ym meddiant Astrid ar ei marwolaeth.

3. Treth etifeddu

Rydych yn awyddus i wybod yn union faint o Dreth Etifeddu fydd yn daladwy.

Fe hoffech dderbyn llythyr lle mae'r cyfreithiwr yn nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r ysgutorion, sut y dosberthir yr ystâd ac a oes unrhyw dreth - etifedd yn daladwy ac, os felly, faint.

Trafod yr ateb

Cyfweliad a nodyn presenoldeb/dadansoddiad cyfreithiol: Pwyntiau i'w cofio

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer **cyfweld** fel a ganlyn:

Sgiliau

1. Gwrando ar y cleient a defnyddio cwestiynau'n effeithiol i alluogi'r cleient i ddweud wrth y cyfreithiwr beth sy'n bwysig iddo.
2. Cyfathrebu ac esbonio mewn ffordd sy'n addas i'r cleient ddeall.
3. Ymddwyn yn broffesiynol a thrin y cleient yn barchus a chwrtais, gan gynnwys parchu amrywiaeth lle bo hynny'n berthnasol.
4. Dangos ffocws ar y cleient yn ei agwedd tuag at y cleient a'r materion (h.y. dangos dealltwriaeth o'r broblem o safbwynt y cleient a'r hyn y mae'r cleient eisiau ei gyflawni, nid yn unig o safbwynt cyfreithiol).
5. Sefydlu a chynnal perthynas effeithiol gyda'r cleient er mwyn meithrin ymddiriedaeth a hyder.

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer y **nodyn presenoldeb/dadansoddiad cyfreithiol** fel a ganlyn:

Sgiliau

1. Cofnodi'r holl wybodaeth berthnasol.
2. Nodi'r camau nesaf perthnasol.
3. Rhoi cyngor sy'n dangos ffocws ar y cleient (h.y. cyngor sy'n dangos dealltwriaeth o'r broblem o safbwynt y cleient a'r hyn y mae'r cleient eisiau ei gyflawni, nid yn unig o safbwynt cyfreithiol).

Cymhwyso'r gyfraith

4. Cymhwyso'r gyfraith yn gywir at sefyllfa'r cleient.
5. Cymhwyso'r gyfraith mewn modd cynhwysfawr at sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol ac arfer barn i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll.

Bydd y cyfweliad yn cael ei farcio gan yr asesydd sy'n chwarae rôl y cleient a bydd yn cael ei farcio ar sgiliau yn unig. Bydd y nodyn presenoldeb yn cael ei farcio gan gyfreithwyr a fydd yn asesu'r ymgeisydd ar sail sgiliau a chymhwyso'r gyfraith. Mae marcio'n seiliedig ar farn broffesiynol gyffredinol yn hytrach na thicio blychau neu wirio rhestr.

Y man cychwyn ar gyfer y penderfyniadau proffesiynol cyffredinol hyn yw safon cymhwysedd yr asesiad, sef safon y Cyfreithiwr Diwrnod Cyntaf cymwys ([y Safon Trothwy](#)). Mae marcwyr yn hyblyg o ran y dull a ddefnyddir gan yr ymgeisydd.

Mae marcio'n seiliedig ar berfformiad ar bob un o'r meini prawf asesu a fernir ar raddfa o A i F fel a ganlyn:

- A: Perfformiad eithriadol: llawer uwch na gofynion cymhwysedd yr asesiad
- B: Yn amlwg yn foddhaol: yn cyrraedd gofynion cymhwysedd yr asesiad yn glir
- C: Pasio o fymryn: at ei gilydd, yn cyrraedd gofynion cymhwysedd yr asesiad a dim mwy
- D: Methu o fymryn: at ei gilydd, methu o ychydig i gyrraedd gofynion cymhwysedd yr asesiad
- E: Yn amlwg yn anfoddhaol: mae'n glir nad yw'n cyrraedd gofynion cymhwysedd yr asesiad
- F: Perfformiad gwael: llawer is na gofynion cymhwysedd yr asesiad

I gael rhagor o fanylion am y marcio, edrychwch ar y [Fanyleb Asesu](#) a'r Polisi Marcio a Chymedroli (i'w gyhoeddi). Mae'r Fanyleb Asesu yn rhoi rhagor o wybodaeth am yr hyn a olygir wrth ddefnydd cywir a chynhwysfawr o'r gyfraith.

Mae pwyntiau cyfreithiol allweddol yn cynnwys y canlynol:

Nid oes angen yr union gyfeiriadau e.e. rhifau rheol neu adran.

Ysgutorion

Effaith ysgariad ar y ddarpariaeth yn yr ewyllys sy'n penodi'r cyn briod fel ysgutor.

Yr opsiynau sydd ar gael i ysgutor nad yw'n dymuno gweithredu.

A all ysgutor weithredu ar ei ben ei hun, er gwaethaf y rhodd yn yr ewyllys i blentyn.

Rhannu'r ystâd

Dirymu rhodd benodol: y cloc teithio.

Effaith etifeddiaeth gyffredinol: roedd yr ewyllyswraig wedi gwerthu'r cyfranddaliadau yr oedd yn berchen arnynt yn ABC plc cyn marwolaeth. Ymddengys o'r ewyllys bod y rodd o'r gyfranddaliadau yn gymynrodd gyffredinol.

Effaith buddiolwr sy'n blentyn nad yw'n gallu rhoi derbynneb ddilys.

Effaith buddiolwr gweddilliol sy'n marw ar ôl y ewyllysiwr ac wedi bodloni'r amod oedran yn yr ewyllys.

Treth etifeddu

Nodi'r ystad drethadwy.

A yw cyfandaliad yn ddyledus gan y darparwr pensiwn galwedigaethol ac, os felly, bydd angen canfod ei statws treth.

Gwerth yr ystâd drethadwy a'r band cyfradd sero sydd ar gael: ymddengys bod gwerth yr ystâd drethadwy yn dod o fewn y band cyfradd sero o £325,000 (yn ddarostyngedig i adarnhad o union werth yr ystâd drethadwy net ar ddyddiad y farwolaeth).

Cyfradd y dreth sy'n berthnasol pan fo'r ystâd o fewn yr band gyfradd sero.

Nodyn ar atebion enghreifftiol:

Rhoddir dau ateb enghreifftiol (Enghraifft A ac Enghraifft B). Nid yw'r un ateb yn berffaith nac yn ateb enghreifftiol ac mae pwyntiau pellach y gellid eu gwneud yn y ddau. Ni ddylech gymryd yn ganiataol bod popeth yn yr atebion enghreifftiol yn gywir. Mae A yn ateb cryfach na B ond mae'r ddau yn cyrraedd y Safon Trothwy o leiaf.

ENGHRAIFFT A (gweler y nodyn ar atebion enghreifftiol, tudalen 14)

Nodyn Presenoldeb

Nodwch, yn hytrach na chopïo o'r nodiadau a wnaed yn y cyfweiliad, gall ymgeiswyr gyfeirio at y nodiadau hyn yn y nodyn presenoldeb. Mae'r atebion enghreifftiol wedi'u cyflwyno fel un ddogfen, heb gyfeirio at nodiadau'r cyfweiliad, er hwylustod darllen.

Ffeithiau

Damian Robins yn bresennol ynghylch ystâd ei chwaer, Astrid Green, a fu farw ar 1 Ebrill 202#.

Enw: Damian Robins

Cyfeiriad: 46 Cunningham Crescent, Llundain, SE23 0AD; Ffôn: 07715 766654

E-bost: d.robins@gmail.com

Darparodd Damian gopi o ewyllys Astrid a manylion cryno am ei theulu ond mae'n bwriadu gweinyddu'r ystâd ei hun.

Rhoddodd fanylion i mi am asedau Astrid a manylion pellach am ei theulu (gweler isod).

Roedd Astrid yn byw yn y cyfeiriad sydd yn yr ewyllys. Ganed 19 Ionawr 1950. Athrawes wedi ymddeol Ni wnaeth Astrid ailbriodi ar ôl iddi hi a Colin Green ysgaru yn 2011.

Materion Cyfreithiol/Cyngor i'r cleient

1. Pwy ddylai weithredu fel ysgutorion?

Mae'r ewyllys, dyddiedig 12 Mehefin 2004, yn penodi Damian yn ysgutor ynghyd â'i chwaer, Joan Knight, a chyn ŵr Astrid, Colin Green. Cafodd Colin ac Astrid ysgariad yn 2011 ac felly ni fydd ei benodiad yn dod i rym. Joan yw gefeilles Astrid.

Bu farw mab Joan yn ddiweddar ac mae Joan yn gwella o driniaeth canser felly byddai'n well ganddi beidio â gweithredu fel ysgutor. Nid yw wedi cynorthwyo i weinyddu'r ystâd hyd yma ac felly gall ymwrthod â'i ysgutoriaeth neu gellir neilltuo pŵer iddi. Gall Damian weithredu fel yr unig ysgutor.

2. Sut bydd yr ystad yn cael ei rhannu?

Mae'n ymddangos bod ewyllys Astrid wedi'i llofnodi'n ddilys. Mae'r rhoddion fel a ganlyn:

- a) Llwyddodd mab Astrid, Frank Green, i oroesi Astrid ond cafodd y cloc teithio a nodir yng nghymal 3(a) ei ddwyn gan ladron cyn iddi farw. Bydd y rhodd felly'n methu.
- b) Goroesodd Gaynor a Susan Green Astrid a bydd pob un yn derbyn £500. Mae Gaynor yn 19 oed a bydd ganddi hawl i dderbyn ei rhodd. Mae Susan o dan 18 oed ac ni all roi derbynneb am ei chymynrodd. Gallai ei rhieni roi derbynneb yn lle hynny.

c) Mae'r rhodd o gyfranddaliadau i John Robins yn gymynrodd cyffredinol. Gwerthodd Astrid ei chyfranddaliadau yn ABC plc cyn ei marwolaeth. Felly, bydd yn rhaid i'r ysgutorion brynu cyfranddaliadau neu dalu'r swm i John a fyddai'n ei alluogi i'w prynu.

Mae gweddill yr ystâd (asedau ar ôl tynnu dyledion, treuliau a chymynroddion) yn trosglwyddo i efeilliaid Joan, Fiona a Jack. Goroesodd y ddau Astrid ac maent yn cwrdd â'r amod oedran yn yr ewyllys. Fodd bynnag, bu farw Jack ddydd Llun yr wythnos diwethaf. Bydd cyfran Jack o'r gweddill yn mynd yn ôl ei ewyllys neu ddiewyllysedd.

3. A fydd unrhyw dreth etifeddu yn daladwy ac, os felly, faint?

Asedau:

99 Castle Street – eiddo bychan gyda 2 ystafell wely, heb forgais, £250,000. Nid oedd Astrid yn berchen ar unrhyw eiddo arall.

Eiddo personol (dim car) - £2,000

Cyfrif cyfredol Nat West - £3,000

Cyfrif cynilo HSBC - £10,000

Cyfrif cynilo Santander - £5,000

Polisi Bywyd gyda LifeCo Ltd - £10,000 – mae'r elw'n daladwy i'r ystâd

Pensiynau – Roedd Astrid yn derbyn pensiwn y wladwriaeth a phensiwn galwedigaethol a oedd yn dod i gyfanswm o £2,500 y mis. Nid yw Damian yn siŵr a fu tan neu ordaliad pensiwn nac a oes cyfandaliad yn ddyledus dan y pensiwn galwedigaethol.

Dyledion:

Cerdyn credyd M & S – Talai Astrid y balans misol yn llawn bob tro. Mae'n debyg bod oddeutu £200 yn ddyledus.

Costau'r angladd - £5,100 – talwyd gan Damian

Treuliau Gweinyddu:

3 tystysgrif marwolaeth – talwyd amdanynt gan Damian – gellir cadarnhau'r gost.

Rhoddionn:

Ni wnaeth Astrid unrhyw roddion yn ystod ei hoes.

Felly, £325,000 yw ei band cyfradd sero.

Ar sail y gwerthoedd uchod, nid yw'n ymddangos y bydd ystâd Astrid yn agored i dreth etifeddiant gan ei bod o fewn y band cyfradd sero sydd ar gael. Mae hyn yn amodol ar wirio'r ffigurau uchod.

Y camau nesaf

Ysgrifennu at Damian i gadarnhau'r cyngor uchod.

Gofyn i Damian wneud y canlynol:

- a) darparu union werth asedau ac ymrwymïadau'r ystâd ar ddyddiad marwolaeth ei chwaer;
- b) darparu copi o'r llythyr sy'n cadarnhau bod yr enillion o'r polisi bywyd yn daladwy i'r ystâd; a
- c) holi darparwr y pensiwn galwedigaethol a oes unrhyw daliadau yn ddyledus.

Ystyried a yw'r taliad(au), os oes rhai, gan y darparwr pensiwn galwedigaethol yn ffurfio rhan o'r ystâd drethadwy.

ENGHRAIFFT B (gweler y nodyn ar atebion enghreifftiol, tudalen 14)

Nodyn Presenoldeb

Nodwch, yn hytrach na chopïo o'r nodiadau a wnaed yn y cyfweiliad, gall ymgeiswyr gyfeirio at y nodiadau hyn yn y nodyn presenoldeb. Mae'r atebion enghreifftiol wedi'u cyflwyno fel un ddogfen, heb gyfeirio at nodiadau'r cyfweiliad, er hwylustod darllen.

Cleient: Damian Robins o 46 Cunningham Crescent, Llundain SE23 0AD. Ffôn 07715 766654

Mater: Ystâd Astrid Green

Gwybodaeth a ddarparwyd gan y cleient:

Astrid Green

Dyddiad marwolaeth: 1 Ebrill 202#

Cyfeiriad: gweler yr ewyllys

Dyddiad geni: 19.1.1950

Wedi ymddeol

Wedi ysgaru yn 2011

Aelodau'r teulu

Gweler y manylion a ddarparwyd gan y cleient cyn y cyfweiliad

Asedau

99 Heol y Castell – oddeutu £250,000, dim morgais, yr unig eiddo yr oedd Astrid yn berchen arno

Eiddo personol - tua £2,000

Cyfrif cyfredol Nat West - tua £3,000

Cyfrif cynilo HSBC - tua £10,000

Cyfrif cynilo Santander - tua £5,000

Polisi Bywyd gyda LifeCo Ltd - £10,000 – mae'r elw'n daladwy i'r ystâd

Pensiynau – pensiwn gwladol a phensiwn galwedigaethol oddeutu £2,500 y mis. Bydd y cleient yn gwirio tanwariant neu ordaliad pensiynau

Dyledion:

Cerdyn credyd M & S – mae'r cleient yn credu bod tua £200 yn ddyledus

Costau'r angladd - £5,100

Yr Ewyllys

Ysgutorion

Mae cymal 2 yn penodi'r cleient yn ysgutor. Mae'r cleient yn fodlon gweithredu ond byddai'n well gan Joan beidio â gweithredu. Nid yw Joan wedi helpu i weinyddu'r ystâd hyd yma ac felly gall ddewis peidio â gweithredu. Mae Colin bellach yn gyn ŵr ac ni all weithredu. Mae'r cleient eisiau gwybod a all weithredu ar ei ben ei hun. Mae'n debygol y bydd yn gallu gwneud hynny ond mae angen gwirio hyn gan fod buddiolwr sy'n blentyn (gweler isod) ac efallai y bydd angen dau ysgutor.

Dosbarthu

Ymddengys mai Astrid ei hun a oedd yn berchen ar yr holl asedau a byddant yn ffurfio rhan o'r ystâd i'w dosbarthu. Os oes cyfandaliad yn ddyledus o'r pensiwn, efallai y bydd yn daladwy yn ôl disgresiwn darparwr y pensiwn ac os felly ni fydd yn ffurfio rhan o'r ystâd i'w dosbarthu.

Cymal 3

Cafodd y cloc a grybwyllir yng nghymal 3 (a) ei ddwyn cyn i Astrid farw ac felly bydd y rhodd yn methu/yn ddi-fudd.

Mae gan Gaynor a Susan Green ill dau hawl i £500 dan gymal 3(b) ond bydd yn rhaid i Susan aros nes ei bod yn 18 oed i dderbyn ei rhodd. Gan nad oedd Astrid yn berchen ar 500 o gyfrandaliadau yn ABC plc pan fu farw, bydd yn rhaid i'r ystâd brynu'r rhain i'r buddiolwr.

Cymal 4

Mae gweddill yr ystâd yn mynd i blant Joan Knight. Does dim rhwystr i Fiona dderbyn ei chyfran. Yn anffodus, bu farw Jack yn ddiweddar. Bydd angen gwneud ymholiadau i gael gwybod a wnaeth ewyllys neu a fu farw'n ddiewyllys.

Treth etifeddu

Mae'n ymddangos bod ystâd Astrid o fewn ei band cyfradd sero o £325,000 ac, felly, ni fydd unrhyw dreth etifeddu yn daladwy. Mae hyn yn amodol ar gael cadarnhad o'r ffigurau uchod ac mae'n rhagdybio nad yw Astrid wedi gwneud unrhyw roddion yn ystod y 7 mlynedd diwethaf a oedd wedi lleihau ei band cyfradd sero (dylid gwirio hyn gan na chodwyd y mater yn y cyfweliad). Mae hyn hefyd yn rhagdybio nad oes cyfandaliad yn ddyledus o'r pensiwn galwedigaethol neu, os yw taliad yn ddyledus, mae'n daladwy yn ôl disgresiwn ymddiriedolwyr y pensiwn ac mae y tu allan i'r ystâd.

Y camau nesaf

Dylem ysgrifennu at y cleient yn cadarnhau'r cyngor uchod.